Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Adroddiad: CLA(4)-13-12 : 11 Mehefin 2012**

**Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno'r adroddiad a ganlyn i'r Cynulliad:**

**Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3**

**Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad negyddol**

**CLA152 - Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2012**
**Gweithdrefn:** Negyddol
**Fe'i gwnaed:** 19 Mai 2012
**Fe'i gosodwyd:** 22 Mai 2012
**Yn dod i rym:** yn unol ag erthygl 1(1)

**CLA153 - Gorchymyn Moch Daear (Ardal Reoli) (Cymru) (Dirymu) 2012**
**Gweithdrefn:** Negyddol
**Fe'i gwnaed:** 23 Mai 2012
**Fe'i gosodwyd:** 25 Mai 2012
**Yn dod i rym:** 15 Mehefin 2012

**Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol**

Dim

**Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad uwchgadarnhaol**

**CLA155 - Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012**
**Gweithdrefn:** Uwchgadarnhaol
**Fe'i gwnaed:** 2012
**Fe'i gosodwyd:** Ni nodwyd y dyddiad gosod
**Yn dod i rym:** gweler erthygl 1

Trafododd y Pwyllgor CLA155 - Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 a chytunodd i graffu arno ymhellach yn y cyfarfod a gynhelir ar 25 Mehefin 2012. Hefyd, cytunodd y Pwyllgor i

gyfeirio'r Gorchymyn hwn i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd er mwyn iddo graffu arno ymhellach.

**Offerynnau sy'n cynnwys materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3**

**Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad negyddol**

**CLA151 - The Education (Student Loans) (Repayment) (Amendment) (No.2) Regulations 2012 (Saesneg yn unig)**
**Gweithdrefn:** Negyddol
**Fe'u gwnaed:** 16 Mai 2012
**Fe'u gosodwyd gerbron Senedd y DU:** 21 Mai 2012
**Fe'u gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru:** 21 Mai 2012
**Yn dod i rym:** 18 Mehefin 2012

**Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol**

Dim

**Busnes arall**

**Ymchwiliadau pwyllgor: ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru:**

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Mr Winston Roddick, CB, QC. Cytunwyd y byddai nodyn cyfeirio'n cael ei ddarparu ar gyfer y papur ychwanegol sy'n atodiad i dystiolaeth Winston Roddick ynghylch cyfreithiau gwahanol i Gymru.

**Penderfyniad i gyfarfod yn breifat**

Yn unol â Rheol Sefydlog 17.42(vi), penderfynodd y Pwyllgor i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod i drafod y dystiolaeth a gyflwynwyd hyd yma ar gyfer yr ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru.

**Eluned Parrott AC**
Cadeirydd dros dro y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**11 Mehefin 2012**

**Atodiad 1**

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**(CLA(4)-13-12)**

**CLA151**

**Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Teitl: The Education (Student Loans) (Repayment) (Amendment) (No.2) Regulations 2012 (Saesneg yn unig)**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae'r Rheoliadau cyfansawdd hyn, sy'n gymwys i Gymru a Lloegr yn unig (ac eithrio Rheoliad 11 sy'n gymwys i'r Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd) yn diwygio ymhellach y Rheoliadau, *The Education (Student Loans) (Repayment) Regulations 2009* (OS 2009/470). Mae'r gwelliannau yn cyflwyno newidiadau i'r system ad-dalu a lefel y llog y bydd benthyciadau dibynnol ar incwm i fyfyrwyr yn ei chronni yn achos unigolion sydd wedi dechrau eu hastudiaethau ar ôl y flwyddyn academaidd 2012/13.

**Materion technegol: craffu**

O dan Reol Sefydlog 21.2, bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn:-

Mae'r Rheoliadau hyn wedi'u paratoi yn Saesneg yn unig.

(Rheol Sefydlog 21.2 (ix) nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg).

**Rhinweddau: craffu**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn ar hyn o bryd.

**Eluned Parrott AC**
Cadeirydd dros dro y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**11 Mehefin 2012**

**Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:**

**Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) (Rhif 2) 2012**

Bydd y Rheoliadau cyfansawdd hyn yn gymwys i Gymru a Lloegr  ac maent yn ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad negyddol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn nau dŷ Senedd y DU. Oherwydd y bydd y Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i graffu gan Senedd y DU, nid ystyrir ei bod hi'n rhesymol ymarferol i'r offeryn hwn gael ei osod, na'i wneud, yn ddwyieithog.